# Cyfarfod Bwrdd AIA IGDC – PREIFAT A CHRYNO

Cofnodion Cryno Cyfarfod Preifat Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a gynhaliwyd ddydd Iau 27 Tachwedd 2025 fel cyfarfod rhithwir trwy MS Teams.

15:00 – 15:45 | 27 Tachwedd 2025 | MS Teams

| Aelodau'n Bresennol | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Ruth Glazzard | RG | Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd | IGDC |
| Ifan Evans | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | IGDC |
| Rowan Gardner | RG | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Rhidian Hurle | RH | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | IGDC |
| Marian Wyn Jones | MWJ | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MBJ | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Sam Lloyd | SL | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKM | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| David Selway | DS | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Helen Thomas | HT | Prif Swyddog Gweithredol | IGDC |

| Yn bresennol | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Paul Evans | AF | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd – Undeb Llafur | IGDC |
| Sam Hall | SH | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | IGDC |
| Samantha Morgan | SM | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | IGDC |

| Yn arsylwi | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Laura Tolley | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol \| Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |

| Ymddiheuriadau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| | | |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig |
| DDaT | Digidol, Data a Thechnoleg | | |

| Rhif yr Eitem | Manylion yr Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL | | | |
| 1.1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i sesiwn breifat Cyfarfod Bwrdd AIA Iechyd a Gofal Digidol Cymru a oedd yn cael ei gynnal heddiw i dderbyn sawl eitem. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Hysbysodd y Cadeirydd Dros Dro y gallai fod gan Rowan Gardner ddatganiad yn ymwneud ag eitem 2.2 WICIS oherwydd perthynas broffesiynol. Fodd bynnag, ar ôl trafodaeth cytunwyd nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 2 – PRIF AGENDA | | | |
| I'W DRAFOD | | | |
| 2.1 | **Achos Busnes Amlinellol (OBC) Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS)**<br>Cyflwynodd Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, yr achos busnes amlinellol, gan bwysleisio ei bwysigrwydd ar gyfer sicrwydd y cyhoedd ynghylch mynediad at ddata a'i rôl wrth alluogi dull seiliedig ar ymddiriedaeth o ran argaeledd cofnodion gofal iechyd, yn | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hytrach na dibynnu ar bersonâu wedi'u diffinio ymlaen llaw.<br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**NODI** Achos Busnes Amlinellol y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS) | | |
| 2.2 | **System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS) - Diweddariad ar Lafar**<br>Rhoddodd Helen Thomas (HT), Prif Swyddog Gweithredol, y wybodaeth ddiweddaraf am System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS) a hysbysodd fod 15 Rhagfyr 2025 wedi'i gytuno ar gyfer penderfyniad gan Lywodraeth Cymru.<br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**DRAFOD** Diweddariad ar Lafar System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.3 | **Diweddariad Cyllid – Cyfarfod Briffio TAW**<br>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little (COL), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, yr adroddiad ar y driniaeth TAW ar gyfer trwyddedu digidol, yn enwedig Office 365, ac amlinellodd y canlynol:-<br>o **Trafodaethau gyda Microsoft ac effaith ar y farchnad:** Mae IGDC yn ymgysylltu â Microsoft ac yn monitro datblygiadau yn yr Alban a Lloegr, gyda'r nod o fanteisio ar eu safle a cheisio cefnogaeth neu addasiadau gwerth yng ngoleuni'r newidiadau TAW.<br>o **Cynllunio Wrth Gefn a Goblygiadau Archwilio:** amlinellwyd y map ffordd ar gyfer talu rhwymedigaethau posibl, gan gynnwys rhyddhau darpariaethau a chredydau cyflenwyr. Yn ogystal, nodwyd y byddai unrhyw daliadau arbennig, fel llog, yn cael eu hadrodd drwy'r pwyllgor archwilio.<br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**GYMERADWYO'R** dull a argymhellir a'r camau nesaf gan gynnwys talu'r TAW a'r llog sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau TAW a dderbyniwyd gan CThEF | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 2.4 | **Diweddariad Audit+**<br>Rhoddodd Sam Hall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, y wybodaeth ddiweddaraf am ailosod y system Audit+ a thynnodd sylw at y canlynol:<br>o **Cynnydd Amnewid System:** roedd y gwaith mewnol o ddisodli Audit+ yn mynd rhagddo'n dda, gan fanteisio ar alluoedd digidol mewnol a derbyn adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.<br>o **Penderfyniad i Ymestyn y Contract:** Er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth, cytunodd y Bwrdd i ymestyn y contract gyda'r cyflenwr presennol, gydag ymrwymiad i | Sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddarparu diweddariad manwl yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>**Penderfynodd y Bwrdd:**<br>**NODI** Diweddariad Audit+ er **SICRWYDD** | | |
| RHAN 3 - MATERION I GLOI | | | |
| 3.1 | **Unrhyw Faterion Brys Eraill**<br>Ni chodwyd unrhyw fater brys arall. | Ddim yn berthnasol | Dim i'w nodi |
| 3.2 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf**<br>I'W GADARNHAU | Ddim yn berthnasol | Dim i'w nodi |